# Pwyllgor Adolygu Gweithredol
## 10 Mehefin 2026

**Yn bresennol (yn bersonol):**
Y Cynghorydd C Williams BEM.

**Yn bresennol (ar-lein):**
Y Cynghorydd M Bowen, Miss F Day, Dr M Havard (Sylwedydd), Mrs S Hoss, Mr GA Jones a'r Cynghorydd A Tinley.

**Hefyd yn bresennol**:
Georgia Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd), Tegryn Jones (Prif Weithredwr), James Parkin (Cyfarwyddwr Adfer Natur a Thwristiaeth), Jake Taylor (Rheolwr Gweithrediadau Cefn Gwlad), Libby Taylor (Pennaeth Ymgysylltu a Chynhwysiant) a Mair Thomas (Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth).

(Yr Ystafell Felen, Parc Llanion, Doc Penfro ac Ar-lein: 10.00am – 11:20am)

1. **Penodi Cadeirydd am y cyfarfod**
   Ar gynnig Mr G Jones, a eiliwyd gan y Cynghorydd M Bowen, **penderfynwyd** bod y Cynghorydd C Williams i gadeirio'r cyfarfod.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**
   Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd T Evans, y Cynghorydd S Hancock MBE a'r Cynghorydd M Williams.

3. **Datgan buddiannau**
   Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

4. **Cofnodion**
   Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2026 i’w cadarnhau a’u dilysu.

   Ar gynnig Miss F Day, a eiliwyd gan Mr G Jones, **penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2026.

5. **Log Gweithredu a Materion yn Codi**
   Nodwyd y log gweithredu.

   **Nodwyd.**

6. **Archwiliad Dwfn/ Hunanasesiad ar yr Amcanion Llesiant: Cysylltiad**
   Cyflwynodd y Pennaeth Ymgysylltu a Chynhwysiant adroddiad ar yr archwiliad dwfn a’r hunanasesiad ar yr amcan llesiant Cysylltiad. Dywedwyd bod yr amcan Cysylltiad yn canolbwyntio ar greu Parc oedd yn wasanaeth iechyd naturiol ac yn cynorthwyo pobl i fod yn fwy iach, yn fwy hapus ac yn fwy cysylltiedig â'r dirwedd, y byd natur, a’r dreftadaeth. Roedd yr adroddiad

yn cynnwys manylion am ganlyniadau'r amcan, asesiad o'r cynnydd a wnaed, yr ystadegau perthnasol, yr astudiaethau achos, yr heriau a'r cyfleoedd, manylion y cyfraniadau at y canlyniadau trawsbynciol, ac asesiad cyffredinol yn ogystal â'r camau nesaf. Tynnodd y Pennaeth Ymgysylltu a Chynhwysiant sylw at negeseuon allweddol yr adroddiad, a chyflwynodd y Rheolwr Gweithrediadau Cefn Gwlad astudiaethau achos perthnasol oedd yn ymwneud â mynediad, y seilwaith, a gweithio mewn partneriaeth.

Nodwyd bod agenda'r Awdurdod ar gysylltiad wedi'i chyflawni'n bennaf drwy brosiectau a ariannwyd yn allanol mewn cefndir ariannu sy'n gynyddol heriol, a gofynnodd yr Aelodau a oedd y Swyddogion yn pryderu ynghylch dyfodol y cyllid. Eglurodd y Pennaeth Ymgysylltu a Chynhwysiant bod cynnydd wedi bod yn y gystadleuaeth am gyllid grant, a bod y Swyddogion wedi bod yn arloesi'n barhaus er mwyn bod yn gystadleuol, a bod gwahanol ddulliau yn cael eu harchwilio i sicrhau cyllid yn y dyfodol. Cadarnhaodd y Swyddog bod cyllid yn bryder parhaus i'r tîm, fodd bynnag byddai'r Swyddogion yn ceisio gweithio'n hyblyg â'r cyllid sydd ar gael, gan addasu eu ffordd o weithio os oes angen. Dywedodd y Prif Weithredwr pe bai cael cyllid allanol ar gyfer prosiectau yn dod yn rhy anodd yn y dyfodol, y byddai'n ofynnol i'r Aelodau asesu'r modd y dylid dyrannu adnoddau i'r maes gwaith hwn fel rhan o adolygu'r modd y mae'r adnoddau yn cael eu dyrannu ar draws blaenoriaethau'r Awdurdod.

Nodwyd, o ganlyniad i'r heriau o ran cyllid, bod gofyn i'r tîm integreiddio'r agenda cysylltiad â meysydd eraill o waith, a gofynnodd Aelod am ragor o wybodaeth ynghylch y modd y byddai hyn yn cael ei gyflawni. Mewn ymateb, eglurodd y Pennaeth Ymgysylltu a Chynhwysiant mai dau o'r elfennau allweddol o ran sicrhau gwell integreiddio yn y maes hwn oedd gweithio'n effeithiol gyda'r rhanddeiliaid a chyfranogwyr y prosiect, a chyflawni nifer o amcanion drwy'r un darn o waith.

Dywedwyd bod yr archebion am offer symudedd bron wedi dyblu i 830 yn 2025/26 o'i gymharu â 427 yn 2024/25, a gofynnodd Aelod a oedd rhaid aros yn hir i ddefnyddio'r offer yn ystod cyfnodau brig y flwyddyn. Cafodd yr Aelodau eu sicrhau, er bod yr archebion am yr offer wedi cynyddu'n sylweddol, nad oedd y gwasanaeth wedi cyrraedd y pwynt hwnnw eto. Ychwanegwyd bod aelodau'r cyhoedd yn cael eu hailgyfeirio i leoliadau lle'r oedd offer ar gael pe bai eu dewis cyntaf o offer wedi'i archebu. Tynnodd y Swyddog sylw at y ffaith bod storio yn un o'r prif heriau o ran yr offer symudedd gan mai tymhorol yw'r busnesau sy'n cynnal y gwasanaeth, ac felly gallai'r offer fod yn llai hygyrch i'r cyhoedd yn ystod cyfnodau tawel. Ychwanegwyd, yn ystod cyfnodau tawel, bod gan aelodau'r cyhoedd yr opsiwn o gasglu offer o bencadlys yr Awdurdod, neu y gallai aelod o'r tîm Ymgysylltu drefnu i gludo'r offer lle bo angen.

**Nodwyd.**

**7. Astudiaeth Achos: Prosiect Partneriaeth Llwybrau i Ddarganfod**
Cyflwynodd y Pennaeth Ymgysylltu a Chynhwysiant adroddiad oedd yn rhoi trosolwg i'r Aelodau o'r Prosiect Partneriaeth Llwybrau i Ddarganfod a'r modd yr oedd y gweithgaredd yn y maes hwn ar hyn o bryd a'r hyn sydd wedi'i gynllunio yn cael ei ddatblygu i ddiwallu anghenion cyfranogwyr y prosiect. Dywedwyd bod Llwybrau i Ddarganfod yn brosiect llesiant a arweinir gan bobl oedd yn cysylltu pobl â'r byd natur yn yr ardal leol oedd yn gymorth i'r unigolyn, y gymuned ac i'r amgylchedd naturiol. Ychwanegwyd bod y prosiect yn cael ei redeg mewn partneriaeth â Mind Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin ac yn cael ei ariannu gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Roedd yr adroddiad yn cynnwys rhagor o fanylion ynghylch nodau'r prosiect, y gynulleidfa darged, gwybodaeth am y tîm/ adnoddau, y cynnydd hyd yn hyn, cyfathrebu, adborth y cyfranogwyr, adborth gan y gweithwyr proffesiynol, trosolwg o'r cynnydd yn erbyn yr amserlen, a'r ystyriaethau ariannol.

Roedd yr Aelodau wedi cymeradwyo'r Swyddogion a'u tîm am eu gwaith caled ac am lwyddiannau'r prosiect. O ran crisialu effaith y prosiect i adrodd yn ôl i'r cyllidwyr, gofynnodd Aelod am ragor o wybodaeth ynghylch y modd y byddai'r prosiect yn cael ei werthuso. Cadarnhaodd y Swyddog bod y prosiect yn cael ei werthuso yn frwd drwy gynnwys ffigurau a straeon am effaith y prosiect. Ychwanegwyd y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu â'r Aelodau ar ddiwedd y prosiect.

**Nodwyd.**

**8. Astudiaeth Achos: Y Prosiect Llwybrau**
Cyflwynodd y swyddogion fideo ar y Prosiect Llwybrau i'r Aelodau oedd yn dangos gwerth y prosiect i'r cyfranogwyr.

**Nodwyd.**

[Ymunodd y Cynghorydd A Tinley â'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol.]

**9. Adroddiad ar y Perfformiad Amcanion Llesiant**
Cyflwynodd y Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth Adroddiad ar y Perfformiad ar yr Amcanion Llesiant oedd yn rhoi manylion am y cynnydd a wnaed yn erbyn dangosyddion/ prosiectau/ rhaglenni gwaith blaenoriaeth am y cyfnod yn dod i ben ar 31 Mawrth 2025/26. Roedd yr adroddiad yn nodi perfformiad yr Awdurdod yn erbyn y pedwar Amcan Llesiant (Cadwraeth, Hinsawdd, Cysylltiad a Chymunedau) fel y'u nodir yng Nghynllun Corfforaethol ac Adnoddau yr Awdurdod 2023/24 – 2026/27. Tynnodd y Swyddog sylw at y meysydd allweddol i'r Aelodau eu nodi.

O ran Cysylltiad, nodwyd bod nifer o faterion wedi codi yn ystod y prosiect Gwella Mynediad i'r Traeth Mawr, oedd wedi golygu bod angen diwygio

dyddiad cwblhau'r prosiect a diwygio'r gyllideb, a gofynnodd Aelod am ragor o wybodaeth ar hyn. Mewn ymateb, cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod cyfnod yr Awdurdod o ymgynghori wedi bod yn rhy hir, ac yn ogystal, bu heriau o ran y broses dendro gan nad oedd digon o gynigion wedi dod i law oedd wedi arwain at yr Awdurdod yn gorfod mynd i dendr dair gwaith. Ychwanegwyd bod y tywydd wedi effeithio ar gynnydd y gwaith drwy gydol y prosiect, a gan nad oedd y safle wedi'i ddatblygu ers amser maith, roedd heriau annisgwyl wedi codi. Canmolodd y Prif Weithredwr y tîm am eu gwaith caled yn symud y prosiect yn ei flaen, a dywedodd y byddai'r safle yn edrych yn wych unwaith y bydd wedi'i gwblhau.

**Nodwyd.**